y dinesydd

Mehefin 1998 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 237

# Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau cynnes i'r holl enillwyr o ardal *Y Dinesydd* yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llyn ac Eifionydd.



**Alice Reed - Ysgol y Wern**
1af ~ Telyn dan 12 oed
2il ~ Llinynnol dan 12 oed
2il ~ Piano dan 12 oed
*Llun: Robin Griffith*



**Catrin Richards - Glantaf**
Addysg Gorfforol Unigol 15-19 oed
2il am yr ail dro
*Llun: Robin Griffith*

**Unawd Telyn dan 12 oed**
1af Alice Reed Ysgol y Wern
**Llefaru Unigol dan 8 oed**
3ydd Dyfed Cynan Ysgol Melin Gruffydd
**Unawd Piano 12 oed**
2il Alice Reed Ysgol y Wern
**Llefaru unigol 8 – 10 oed**
2il Marged Jones Ysgol y Wern
**Unawd Llinynnol dan 12 oed**
2il Alice Reed Ysgol y Wern
**Unawd Chwythbrennau dan 12oed**
2il Trystan Dafydd Ysgol Melin Gruffydd
**Unawd Llinynnol 12 – 15 oed**
3ydd Selyf Shapey Ysgol Glantaf
**Llefaru Unigol 15 – 19 Dysgwyr**
3ydd Mathew Walters Ysgol Esgob Llandaf
**Unawd Llinynnol 15 – 19 oed**
2il Heledd Havard Ysgol Glantaf
3ydd Jonanthan Shapey Ysgol Glantaf
**Dawns Unigol i ferched 15 – 25 oed**
1af Sioned Page Aelod Unigol
**Addysg Gorfforol Unigol dan 12 oed**
1af Natalie Morgan Ysgol St Joseph's
**Parau Addysg Gorfforol dan 12 oed**
3ydd Natalie a Emma Ysgol St Joseph's
**Triawd Addysg Gorfforol dan 12 oed**
2il Ysgol St Joseph's
**Addysg Gorfforol Unigol i ferched 12 – 15 oed**
2il Catrin Richards Ysgol Glantaf
**Siarad Cyhoeddus Unigol dan 19 oed**
3ydd Elen Mair Thomas Ysgol Glantaf
**Monolog 19 – 25 oed**
1af Catrin Prys Williams Aelod Unigol
**Tîm Siarad Cyhoeddus oedran Blwyddyn 10 – 13**
3ydd Tîm Ysgol Glantaf - Sara Roberts, Catrin Mears, Meilyr Dafydd ac Aled Jones
**Medal y Dysgwyr**
2il Emma Thomas Ysgol Uwchradd Caerdydd
**Tlws y Prif Gyfansoddwr**
1af Ceiri Torjussen Aelod Unigol
**Grŵp Roc dan 15 oed**
2il 'Rhywbeth neu'i Gilydd' Ysgol Glantaf



**Ceiri Torjussen - Aelod Unigol**
Prif Gyfansoddwr am y trydydd tro mewn pedair blynedd
*Llun: Robin Griffith*



**Marged Jones - Ysgol y Wern**
2il ~ Llefaru 8-10 oed
*Llun: Robin Griffith*

# Y Dinesydd

**Mehefin 1998, Rhif 237. ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road,Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 28 Mehefin:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ......................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: .....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ......................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: .....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Calendr y Dinesydd

**Mercher, 17 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Côr yr Aelwyd, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.
**Iau, 18 Mehefin**
Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch yn cyfarfod yn Churchills, Llandaf am 6 p.m. Siaradwraig: Rhian Anwen Roberts (Canolfan Mileniwm Cymru). Cyfarfod Blynyddol am 5.15 p.m.
**Sadwrn, 20 Mehefin**
Noson Ryngwladol Recordiau Ankst gyda 'Melys, Silicone a Girlfriendo' yng Nghlwb Ifor Bach.
**Mawrth, 23 Mehefin**
Perfformiad 'Spectacle Theatre' o *Wedi'r Haf* (Ian Staples) yn Stiwdio Chapter am 7.30pm. Manylion pellach: 01443 430700.
**Iau, 2 Gorffennaf**
**Diwrnod Golff Corfforaethol *Y Dinesydd* ar Gwrs Golff yr Eglwys Newydd. Manylion pellach gan Ceri Preece (01222-224871).**
**Llun, 6 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper pentymor, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.00 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Y BWRDD YN ARWAIN Y FFORDD

Bu arbenigwyr blaenllaw o Ewrop mewn cynllunio ieithyddol yng Nghaerdydd ddechrau Mehefin i drafod ffyrdd ymarferol o hyrwyddo'r defnydd cymunedol o ieithoedd llai, fel rhan o Gynhadledd Ewropeaidd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Gynllunio Ieithyddol Cymunedol.

Trefnwyd y gynhadledd dridiau, ar ffurf 'gweithdy gwneud', yn wahanol i "gynhadledd ddweud"! Y prif nod oedd cytuno fframwaith ar gyfer paratoi pecyn o ganllawiau, arferion da a modelau ymarferol i gynorthwyo yn y gwaith o atgyfnerthu ieithoedd llai mewn cymunedau ledled Ewrop.

"Gan fod cymaint o ddiddordeb yn cael ei ddangos yn yr hyn rydym yn ei wneud yma yng Nghymru y dyddiau hyn, roeddem yn teimlo y byddai'n briodol gwahodd arbenigwyr o Ewrop i Gymru i weld dros eu hunain, ac i drafod materion o ddiddordeb cyffredin gyda'r Bwrdd a chynrychiolwyr allweddol eraill," meddai'r Arglwydd Elis-Thomas, Cadeirydd y Bwrdd.

Gwaith ymchwil yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn tair ardal yng Nghymru, a gomisiynwyd gall y Bwrdd, oedd yn gosod sail i'r drafodaeth ar gynllunio ieithyddol cymunedol, nid yn unig yng Nghymru ond mewn cyd-destun Ewropeaidd ehangach.

"Er bod yr ieithoedd a gynrychiolir yn y Gynhadledd yn wahanol iawn ar sawl ystyr, rydym yn rhannu nifer o nodweddion a phrofiadau cyffredin. Mae'n amlwg y gallwn ddysgu llawer gan ein gilydd. Mae ein hieithoedd yn adnoddau gwerthfawr, i'w defnyddio a'u mwynhau. Trwy gyfrwng y gynhadledd hon, ein gobaith yw helpu nifer o gymunedau ieithyddol eraill i fanteisio ar ddefnyddio eu dewis ieithoedd yn gynyddol ac yn ehangach, fel sydd yn digwydd yn barod yng Nghymru," ategodd yr Arglwydd Elis Thomas.

Yr oedd Mr Bojan Brezigar, Llywydd Biwrô Ewropeaidd Ieithoedd Llai eu Defnydd hefyd yn rhoi cyflwyniad oedd yn amlinellu gweledigaeth y Biwrô ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol, a'i rôl ehangach.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ray, a'r plant, David a Siân, teulu'r diweddar Alban Dyer, Y Mynydd Bychan a fu farw'n ddiweddar. Roedd gwreiddiau Alban yn ddwfn yn nhir Llanfynydd a threuliodd beth amser yn Lloegr yn gweithio gyda'r Customs and Excise ond dychwelodd i Gymru 'pan oedd y plant yn fychan' iddyn nhw gael addysg Gymraeg. Roedd yn aelod ffyddlon o Gymdeithas Sir Gâr ac o Eglwys Dewi Sant. Bydd y golled ar ei ôl yn fawr.

**Cydymdeimlwn** hefyd â theulu'r diweddar Elvet David a fu farw yn Ysbyty Llandochau fis Ebrill. Bu Elvet yn gefn i'r 'pethe' ar hyd y blynyddoedd yng Nghaerdydd a bu'n dwr o nerth yng Nghapel Bethlehem, Sblot a loes calon iddo fu gweld cau'r capel hwnnw oherwydd cwymp yn nifer yr aelodau.

**Cydymdeimlwn** â theulu'r diweddar Arthur Phillips, Ystradywen, Y Bont-faen a fu farw. Roedd yn perthyn i deulu'r Philipiaid yng Ngwaelod-y-garth.

**Cydymdeimlwn** hefyd â theulu'r ddiweddar Eunice Davies, gynt o Waelod-y-garth a fu farw yng Nghartref Nyrsio Tŷ Mawr, Parc yn y Rhondda. Roedd yn weddw i John Charles Davies, blaenor a chodwr canu Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth am flynyddoedd lawer.

**Cydymdeimlwn** â Siân Gillard a'r teulu ar golli ei mam, Mair Eluned, Ebeneser Llanelli. Bu'r arlwy yng nghapel y Tabernacl, Llanelli.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Ruth Stephens yr Eglwys Newydd a David Meredith ar golli eu mam, Elisabeth Meredith yn 94 oed ym Methesda, Gwynedd. Fe'i claddwyd ym mynwent Llanuwchllyn.

**Cydymdeimlwn** â theulu'r diweddar Olifer Williams, yr Eglwys Newydd, gynt o Lanbedr Pont Steffan - gŵr a fu'n amlwg iawn ym myd y ddrama yng nghylch Llambed.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Carol Davies, Radur a'r teulu ar golli ei thad, Alan Morris, yn Llanelli.

**Cydymdeimlwn** â Mairlis, Delyth, Heulwen a John ar farwolaeth eu mam Annie Edith, gweddw'r Parchedig David Jones-Davies yn y Pil ganol Mai.

**Cydymdeimlwn** hefyd â theulu'r diweddar Elwyn Parry a fu farw yn Holme Towers ym Mai. Brodor o Bentrefelin ger Cricieth oedd Elwyn ac ar ôl gweithio am flynyddoedd yn Llundain daeth i fyw i Rhiwbina ac ymaelodi yng nghapel Bethel. Bu'n drysorydd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bydd pobol y 'pethe' yn y cylch yn teimlo'i golli ac yntau mor barod ei gymwynas.

## LLONGYFARCHION

Llongyfarchion i Aled Williams, Y Mynydd Bychan ar gael ei benodi'n athro'r Gymraeg yn Ysgol y Strade, Llanelli. Mae Aled yn un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Glantaf a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Pob hwyl iddo yn ei swydd newydd.

**Llongyfarchion** hefyd i Mali Rhys, annwyl ferch Mags a Phyl Harries, Dinas Powys, ar ei dyweddïad ag Ian Gravelle, mab hynaf Wendy a Hywel Gravelle, Porthcawl. Dymuniadau gorau i bawb.

**Llongyfarchion** i Gwenfair Michael a Dylan Andrew Jones, y ddau o Ysgol Gyfun Glantaf ar ennill Ysgoloriaethau Evan Morgan i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth.

**Llongyfarchion** hefyd i David Hamley, cyfarwyddwr yn Datblygiad Caerdydd ar ei benodiad yn ganolwr mewn anghytundebau yn y diwydiant adeiladu. Cafodd ei addysg yn Ysgol Uwchradd Howardian a'r Ysgol Bensaernïol yng Nghaerdydd. Bu'n gyfeilydd Côr Aelwyd Caerdydd ac addysgwyd ei ddau blentyn yn Ysgol Gyfun Glantaf.

## CYLCH CINIO Y BARRI A'R FRO

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cylch Cinio Y Barri a'r Fro ddiwedd Mai. Etholwyd y swyddogion a ganlyn i weinyddu gweithgareddau'r cylch yn ystod 1998-99. Llywydd Anrhydeddus: Gwilym Williams; Cadeirydd: Douglas James; Is-gadeirydd: John Roberts; Ysgrifennydd: Islwyn Jones; Trysorydd: Alcwyn Evans. Os am ymuno â'r cylch y flwyddyn nesaf cysylltwch â'r ysgrifennydd yn 47 Gwenfô Drive, Gwenfô, Bro Morgannwg, Ffôn: 01222 594533.

## BEDYDD YN EGLWYS DEWI SANT

Ar fore Sul ddechrau Mai bedyddiwyd Angharad Haf Dixon yn Eglwys Dewi Sant. Merch Siân Elin (Jenkins gynt) ac Andy yw Angharad.



Y Parchedigion Aled Edwards a Dorrien Davies yn bedyddio Angharad Dixon *Llun: Islwyn Jenkins*

Gwasanaethwyd gan y Parchedig Aled Edwards, ficer Dewi Sant a'r Parchedig Dorrien Davies, ficer Ystrad Aeron, a pherthynas i Siân Elin. Pob dymuniad da i'r teulu dedwydd.

## PWFF PWFF A MENTER YN GYMRAEG

Mae Cwmni Rheilffordd y Great Western wedi sefydlu llinell ymholiadau Gymraeg a bydd y gwasanaeth ar gael yn ddyddiol rhwng naw y bore a phump y pnawn. Y rhif i'w ddeialu yw: 0845 6040500. Cofiwch godi'r ffôn i holi am y trên!! Yn ddiweddar hefyd cyhoeddwyd llyfryn *Y Camau Cyntaf* ar gyfer arweinwyr Cynllun Dug Caeredin mewn ymdrech i ddenu mwy o siaradwyr y Gymraeg i ystyried ymuno â'r cynllun.

## AGOR PIER

Ar ôl bod ar gau am fisoedd mae'r pier ym Mhenarth wedi ailagor. Trefnwyd nifer o weithgareddau i ddathlu'r achlysur megis môr-deithiau i wahanol lefydd. Mae'r pier a'r promenâd yn boblogaidd iawn gan y dinasyddion.

## ENNILL ANRHYDEDDAU

Ganol Ebrill anrhydeddwyd pymtheg o bobl gan Brifysgol Cymru, yn Neuadd Gyngerdd Prifysgol Cymru, Caerdydd. Ymhlith y pymtheg roedd Archesgob Tutu, De Affrica. Roedd nifer o'r rhai a anrhydeddwyd â chysylltiad â Chaerdydd, sef Geraint Stanley Jones, y Cyn-farnwr Dewi Watkin Powell, yr Athro Bernard Knight a'r Dr Meredydd Evans - neu 'Merêd', sylfaenydd y papur hwn. Llongyfarchion iddynt i gyd.

## PRYD O FWYD?




Cogydd presennol bwyty'r Marque ar ben Heol y Crwys yw Paul Palmer a gafodd ei fagu yn Bahrein ond sy'n Gymro Cymraeg gan i'w dad, sy'n hanu o Aberdâr, ei godi i siarad yr iaith. Ond os digwydd ichi fod yn Nhŷ Bwyta Tŷ'r Cyffredin yr haf hwn, gofynnwch am botelaid o win Cariad, o winllan Llannerch, Pendeulwyn. Gwin Cariad hefyd oedd ar y bordydd mewn pabell enfawr ar lawnt y castell pan groesawyd ymerawdwr Japan i'r ddinas yn ddiweddar. Heledd Fflur Watts, wyth oed, a disgybl yn Ysgol Pen-cae oedd un o'r plant a gyflwynodd dusw o flodau i'r ymerodres.

## DWY GYMANFA GANU

Cynhaliwyd cymanfa ganu flynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina yng nghapel Beulah ganol Ebrill. Yr arweinydd oedd Alun Guy a'r unawdydd oedd Paul Jones, ail fab Mansel a Kathleen Jones, Rhiwbina. Mae Alun a Paul yn athrawon yn Ysgol Gyfun Glantaf. Yn yr haf bydd Paul yn gadael i ddilyn cwrs hyfforddi lleisiau yn yr Academi yn Llundain.

Cynhaliwyd cymanfa ganu'r Presbyteriaid yng nghapel Salem Treganna ddechrau Mai. Yr arweinydd gwadd oedd Arwel Peleg Williams, prifathro Ysgol Gymraeg Coed-y-gof. Cafwyd canu da gan y plant yn y bore ac yn yr hwyr cafwyd cwmni Côr Merched Canna a rhoddasant ddatganiad hyfryd yn ystod y gymanfa.

## SWYDDI NEWYDD

Pob dymuniad da i Margaret Thomas Treganna ar ei phenodiad yn bennaeth yn Ysbyty'r Trallwng, Powys. Bu'n gweithio am flynyddoedd yn yr Adran Ffisiotherapi yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd, Y Mynydd Bychan.

Pob dymuniad da hefyd i Huw Hampson-Jones, gynt o Faesteg, sydd wedi ei benodi'n bennaeth newydd Adran Fusnes Telecyfathrebu Cwmni Siemens Nixdorf. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae ei frawd, Dafydd Hampson-Jones yn frocer gyda Chwmni Henderson Crosthwaite, Caerdydd. Bu'n gadeirydd Cwlwm Busnes Caerdydd ar un adeg.

## YMDDEOLIAD

Ymddeoliad hapus i Robin Jones, prif ddosbarthydd *Y Dinesydd* ar ei ben-blwydd yn drigain oed. Brodor o'r Rhyl yw Robin a bu'n athro ar ddechrau ei yrfa cyn ymuno â'r hen gwmni, Teledu Cymru. Yna treuliodd ugain mlynedd yn gyflwynydd a darlledwr newyddion gyda'r BBC cyn ymuno ag S4C i fod yn brif gyflwynydd.

## TANNI GREY

Daeth llwyddiant mawr i Tanni Grey'n ddiweddar. Enillodd ei ras mewn cadair olwynion ym Marathon Llundain mewn dwy awr, dwy funud ac un eiliad. Dyma'r pedwerydd tro iddi hi ennill y ras. Cododd dros £40,000 i'r RNLI drwy ei hymdrechion.

## SÊR y SÊR!!

Ar ôl bod yn neg uchaf y byd pop ddwywaith mae'r band poblogaidd, Catatonia, wedi taro'r jacpot gan gyrraedd brig y siartiau gydag 'International Velvet'. Llongyfarchiadau iddyn nhw ar eu llwyddiant.

## CADEIRIO CYMDEITHASAU

Yn ddiweddar etholwyd Haydn Jones, Rhiwbina yn gadeirydd Cymdeithas Cymry'r Wenallt am 1998-99. Cynhelir eu cyfarfodydd yng Nghlwb Rygbi Felindre, yr Eglwys Newydd.

Yn ei gyfarfod blynyddol yn ddiwedder, penododd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina Rhys Morgan yn gadeirydd am y tymor 98/99, Bob Davies yn is-gadeirydd, Hadyn Jones yn ysgrifennydd a Hael Boole yn drysorydd. Yn ystod y noson, cofiwyd am ddau aelod a fu farw'n ddiweddar sef y cyn-drysorydd, Elwyn Parry a Mrs Lili Richard.

## MAER CAERDYDD

Urddwyd y Cynghorydd Marion Drake yn Arglwydd Faeres Dinas Caerdydd mewn seremoni fis Mai. Cafodd ei magu yn y Rhondda a bu'n athrawes a darlithydd. Mae hi wedi cynrychioli ward Radur a Sain Ffagan fel cynghorydd am nifer o flynyddoedd. Pob dymuniadau da iddi hi yn ei swydd.

## PEN-BLWYDD HAPUS



Mrs Fflorens Roberts yn torri'r gacen yng nghwmni Mrs Mary Wiliam
*Llun Robin Griffith*

Yn ddiweddar cafodd Merched y Wawr Radur y fraint o ddathlu pen-blwydd un o'i haelodau yn 90 oed, Cafodd pawb noson wych a Florence Roberts wrth ei bodd o weld criw mawr wedi crynhoi a hithau heb glywed na siw na miw am y digwyddiad. Cafodd barti i'r teulu a'u ffrindiau agos yn ddiweddarach ond Merched y Wawr oedd y cyntaf i estyn llongyfarchiadau. Mae wedi bod yn aelod o'r mudiad ers pum mlynedd ar hugain ac wedi gweithio drosto o'r dechrau. Mae bob amser yn bleser bod yng nghwmni Mrs Roberts am ei bod mor llawen a siriol a gwên fawr ar ei hwyneb yn ddi-ffael.

O Lanfaglan yn enedigol, roedd bryd Mrs Roberts ar fod yn nyrs. Aeth i Lerpwl i hyfforddi ac yno cyfarfu â'i gŵr a magu eu merch Gwennan. Ni ddaeth yn ôl Gymru i fyw nes iddynt ymddeol i Gricieth.

Ond pan ddaeth yn ôl, dechreuodd ar yrfa newydd yn llenor. Roedd ei nofel gyntaf am ei harwres Betsi Cadwaladr a fu'n gweithio gyda Florence Nightingale yn Scutari. Trwy gyd-ddigwyddiad cafodd ei hail nofel, *Y Rhosyn Coch*, ei hadolygu ar Silff Lyfrau'r gwanwyn o'r *Wawr*. Roedd hwn yn ddathliad y bydd sôn amdano am flynyddoedd. Teimlem ein bod wedi cael ein hadnewyddu a'n cyfoethogi o fod yng nghwmni Fflo y noson honno.

## ALUN GUY YN YMDDEOL

Dymuniadau da i Alun Guy, pennaeth Adran Gerdd Ysgol Gyfun Glantaf ar ei ymddeoliad. Brodor o Gaerdydd yw Alun a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Cathays ac wedi hynny ym Mhrifysgol Caerdydd. Daeth yn amlwg fel arweinydd Côr Aelwyd Caerdydd cyn dod yn feirniad cenedlaethol ac yn arweinydd poblogaidd cymanfaoedd canu. Cofir yn hir am y cyngherddau a'r sioeau cerdd y bu'n gyfrifol amdanynt yn ystod ei yrfa yng Nglantaf.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Minny Street

**Cydymdeimlwn** â theuluoedd pedwar o'n haelodau a fu farw yn ystod y misoedd olaf: Mr Elfed David; Mr Vernon Griffiths; Mrs Gwyneth Richards a Mrs Mary Lewis.

**Tristwch** i holl aelodau Minny Street oedd clywed yn oedfaon y Sul, Ebrill 26, am ddymuniad y Parchedig Ieuan Davies i gael ei ryddhau o'r cyfrifoldeb dros weinidogaeth a bugeiliaeth yr Eglwys wedi'r Sul cyntaf yn Hydref. Daw cyfle eto i dalu teyrnged lawn ond gwerthfawrogwn yr holl waith mae ef a'i briod, Eunice, wedi ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf a dymunwn pob bendith i'r ddau.

**Sylw i Swdan** : fel rhan o ymgyrch arbennig Undeb yr Annibynwyr ar y cyd â Chymorth Cristnogol tuag at De Swdan, mae nifer o weithgareddau wedi ac eto i'w cynnal gan yr aelodau. Ynghyd â neilltuo offrwm mewn oedfaon arbennig, cafwyd cawl wedi oedfa'r bore, te a 'phice bach' ar nos Sul, cerdded o gylch llyn y Rhath a gwerthiant beiro arbennig. Eisoes danfonwyd £4000 i'r Apêl, ond gobeithiwn ychwanegu at hyn eto o gael arwerthiant cist car, seicio nawdd a nifer o weithgareddau eraill yn y dyfodol agos.

## Eglwys Ebeneser, Caerdydd

Bu aelodau'r eglwys yn parhau a'u hymdrechion tuag at apêl Undeb yr Annibynwyr eleni, sef ymgyrch *Sylw i Swdan*. Codwyd £460 pan fu Beti George yma'n holi Aled Glynne Davies, Golygydd Radio Cymru, ar ffurf Beti a'i Phobl ar 29 Ebrill. Ar Fai 2 llwyddwyd i chwyddo'r coffrau ymhellach gyda £600 o'r Bore Coffi a drefnwyd gan Gymdeithas y Chwiorydd. Yna, ar brynhawn Sadwrn, 16 Mai, roedd taith gerdded noddedig yr Ysgol Sul o Landaf i Gastell Coch ar hyd llwybr Afon Taf.

Cawsom y fraint o gael bedyddio tri o blant yr eglwys yn y mis diwethaf:
3 Mai - Cai Daniel, mab Bethan a John Hayes
17 Mai - Lowri Rhiannon, merch Vikki a'r Parchedig Alun Tudur
7 Mehefin - Elis Dafydd, mab Catrin a Dafydd Parri.

## Blas ar Fwyd yn y Crwys

Nos Wener, 27 Mawrth, roedd theatr y Crwys yn orlawn yng nghyfarfod olaf y tymor yng nghwmni y cogydd enwog Mr. Dudley Newbury neu 'Dudley' S4C. Paratodd bedwar cwrs deniadol a blasus.

Cawsom gyflwyniad proffesiynol, gyda phob dim wedi ei baratoi ymlaen llaw yn ofalus a threfnus er sicrhau coginio cyflym. Roedd ei ddulliau yn ymarferol a dealladwy a'i ffraethineb yn diddori'r gynulleidfa. Datgelodd gyfrinachau y cogydd gan bwysleisio symlrwydd ei grefft, i hybu ein hunanhyder.

Pwysleisiodd y ffordd orau i flasu bwyd drwy ddefnyddio olew pur olewydden; finegr 'Balsamic'; menyn heb halen, gwin sych; amrywiaeth o lysiau fel mintys, teim, cennin syfl, winwn, garlleg, rosmari, coriander, basil, persli a lemwn, i enwi rhai. Roedd torri braster i lawr drwy ddefnyddio llai o fenyn a hufen yn llesol i iechyd, heb amharu ar flas y bwyd. Rhoddodd wybodaeth fanwl ar wahanol agweddau ar goginio, gan egluro a rhesymu sut i sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol.

Cafodd y cogydd gymorth y gweinidog i baratoi'r cwrs cyntaf, a gwobrwywyd yntau drwy ei wahodd i flasu'r bwyd. Tynnnwyd allan o het naw enw arall o aelodau ffodus i brofi'r bwyd yn eu tro. Wedi tynnu llenni'r llwyfan, syndod a phleser oedd gweld bwrdd wedi ei arlwyo i dderbyn y pâr cyntaf i brofi'r cwrs cyntaf. Derbyniwyd hwy yn urddasol gan y gweinydd, Robin Jones, a'i gynorthwywraig Anne Innes. Cafodd y gynulleidfa flasu'r salad efo'r bacwn crimp, a'r dyfarniad oedd gwych, blasus dros ben.

## Bethel, Rhiwbina

Bore Mawrth, 12 Mai, cawsom ein tristau yn fawr wrth glywed am farwolaeth Mr Elwyn Parry, Ardwyn, Pantmawr. Bu'n hynod ffyddlon i Fethel er iddo ymaelodi bedair blynedd yn ôl. Roedd yn gymeriad hoffus a hwyliog. Bu hefyd yn weithgar yn y gymuned. Roedd yn drysorydd Cymdeithas Hamdden Cymry Caerdydd a Chymdeithas Gymraeg Rhiwbina ac yn aelod o Gymry'r Wenallt. Treuliodd oriau bob wythnos yn gwneud gwaith gwirfoddol yn Ysbyty Felindre. Fe'i ganed ym Mhentrefelin ger Cricieth a bu'n gweithio yn Llundain cyn symud i swydd yn y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â'i dair merch a gweddill y teulu. Cafwyd gwasanaeth ym Methel a'r amlosgfa fore Llun, 18 Mai. Gwasanaethwyd gan ei weinidog, y Parch. D. Haydn Thomas gyda chymorth y Parchedig Dyrinos Thomas.

## Gŵylnos y Bobl - Neuadd y Ddinas, 14 Mehefin.

Ym mis Mehefin 1998, bydd Uwchgynhadledd Ewrop yn dod i Gaerdydd. Bydd hwn yn ddigwyddiad hanesyddol i Gaerdydd a Chymru, i Brydain ac i Ewrop. Gyda dros 3000 o newyddiadurwyr yn dilyn hynt y 15 arweinydd Ewropeaidd a'u gweinidogion cyllid a fydd yn cymryd rhan yn y gynhadledd, bydd Caerdydd yn llygad y byd am ddeuddydd. Yr agenda fydd arian sengl i Ewrop ac ehangu yr UE.

Ond wrth inni agosáu at y Mileniwm, bydd yna agenda ehangach nag un yr arian sengl ac un Ewrop. Beth am y bobl hynny sydd yn dioddef tlodi a newyn oherwydd economi eu gwledydd? Beth am y rhai hynny sydd o hyd yn gorfod brwydro am heddwch cyfiawnder a rhyddid?

Mae clymblaid Jiwbili 2000, sydd yn cynnwys nifer o Eglwysi a mudiadau eraill, wedi ymroi i alw am ddechreuad newydd i filfiliwn trwy ddiddymu'r ddyled anhaladwy sydd ar wledydd tlota'r byd i wledydd cyfoethocaf y byd, gan gynnwys y rhai o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Uwchgynhadledd Ewrop yn rhoi inni'r gyfle i dynnu sylw'r Arweinyddion i'r agenda ehangach hon. Fe gynhelir **Gŵylnos y Bobl** ar y noson cyn agor yr Uwchgynhadledd y tu allan i Neuadd y Ddinas, Caerdydd, lle y cynhelir yr Uwchgynhadledd. Rhoddir y brif anerchiad gan Glenys Kinnock, Aelod Seneddol Ewropeaidd, sydd yn un o gefnogwyr Jiwbili 2000. Dewch yn syth i ganol Caerdydd o'ch gwasanaeth hwyrol ar nos Sul, 14 Mehefin gyda channwyll a'ch deisebau Jiwbili 2000 wedi eu llofnodi. Cerddwch fel grwp eglwys o'r maes parcio; cewch glywed cerddoriaeth o wahanol wledydd wrth ddisgwyl am i'r wylnos ddechrau am 8.30 p.m. Wedi i Glenys Kinnock siarad, cynheir y canhwyllau, bydd cyfnod o ddistawrwydd ac yna fe ddywedir gyda'n gilydd ddatganiad yn galw am heddwch a chyfiawnder i bawb. Cewch gyfle i gyflwyno deiseb eich eglwys - ac yna fwynhau yr awyrgylch yn y brifddinas ar noson mor hanesyddol.

Dewch yn llu i'r digwyddiad pwysig hwn wrth inni sefyll ochr yn ochr â phobl holl wledydd y byd.

# YSGOL GLANTAF

## Eisteddfod yr Urdd

Nos Iau, 21 Mai, cynhaliwyd cyngerdd 'Mwyniant Mai' yn yr ysgol isaf pan gafwyd cyfle i glywed a mwynhau y mwyafrif o'r 39 cystadleuaeth a aeth i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwllheli. Cafwyd gwledd o berfformiadau safonol ac amrywiol gan gynnwys cyflwyniadau lleisiol, offerynnol, llafar a dawns.

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion hynny a gafodd lwyddiant ym Mhwllheli. Gwelir eu henwau ar y dudalen flaen.

## Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotary

Cynhaliwyd rownd derfynol Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotary yn ne Cymru yn Ysgol Maes yr Yrfa ddechrau mis Mai. Tim Ysgol Glantaf, sef Sara Roberts, Elen Mair Thomas a Leah Jones, oedd yn fuddugol a dyfarnwyd gwobr 'Siaradwr y Noson' i Elen.



## Llwyddiant Mathemategol

Bu 30 o ddisgyblion blynyddoedd 7 ac 8 yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'U.K. Junior Maths Challenge' fis Ebrill. Llongyfarchiadau i'r 20 ohonynt a lwyddodd i ennill tystysgrif, ac yn arbennig i'r tri a enillodd dystysgrifau aur, sef Gethin James a Bethan Thomas o flwyddyn 8 a Dafydd Franklin o flwyddyn 7.

Rhaid hefyd longyfarch Gethin a Bethan ar gyrraedd safon uchel iawn yng nghystadleuaeth y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol eleni. Cyflwynwyd gwobrau i'r ddau ddydd Mercher, 27 Mai, gan Gerallt Pennant yn y Babell Gwyddoniaeth a Mathemateg yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llŷn ac Eifionydd.

* * * * *

Ddechrau Mai teithiodd dau fws mini o Ysgol Glantaf i fyny i Aberystwyth i gystadlu eto yng Nghystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd. Daeth bechgyn blwyddyn saith yn gyntaf a merched blwyddyn wyth a naw yn gyntaf hefyd. *Llun: Robin Griffith*



## Y Deml Heddwch heddiw ac i'r dyfodol

Yn ddiweddar bu tri o ddisgyblion blwyddyn 12 Ysgol Glantaf, Sara Roberts, Siân Stephen a Hywel Williams, yn cyfweld â Steven Thomas, pennaeth y Deml Heddwch.

Sefydlwyd y Deml Heddwch yn y tridegau am ddau reswm, fel cofeb i'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Cymry a fu farw ynddo, ac yn ail fel canolfan i weithgareddau heddwch rhyngwladol. Mae'r Deml heddiw yn cynrychioli Cymdeithas y Cynhedloedd Unedig yng Nghymru, Unicef yng Nghymru a'r Cyngor Addysg o ran Dinasyddiaeth Ryngwladol. Fel rhan o weithgarwch y cyngor addysg hwn maent yn rhedeg sustem lle mae pobl o dramor yn dod i Gymru am gyfnod byr i weithio ac i ddarganfod mwy am y wlad a'i diwylliant, ac yna mae pobl ifainc o Gymru yn mynd i'r gwledydd eraill.

Mae yna agweddau eraill i'r Deml hefyd. Mae'r Deml yn cynnal cyfarfodydd lle mae pobl adnabyddus yn dod i roi areithiau, ac yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf mae Ewrop a'r Gymuned Ewropeaidd wedi dod yn fwy amlwg yng ngwaith y deml. Ond gan nad yw Cymru, ar hyn o bryd, yn wlad hunanlywodraethol, nid yw Caerdydd yn cael ei chydnabod fel prifddinas yn yr un modd â phrifddinasoedd eraill megis Llundain. Anodd yw hi felly i gael arweinwyr gwledydd eraill i ddod i'r Deml. Y gobaith yn y dyfodol yw y bydd y cynulliad yn arwain y ffordd at ddatblygiadau a fydd yn gweddnewid agwedd gwledydd eraill at Gymru.

Mae'r Cynulliad yn mynd i fod yn allwedd sydd yn agor y llwybr i'r Deml a mudiadau eraill yng Nghymru i adeiladu rhyw fath o strwythur ddemocrataidd a gwleidyddol newydd i Gymru. Nod Steven Thomas, pennaeth y Deml Heddwch, yw y bydd y Cynulliad yn cymryd rôl blaenllaw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a chan fod sôn y bydd rhai adrannau o'r Cynulliad yn ymgartrefu yn y Deml bydd hyn yn ddatblygiad fydd yn hybu gwaith y Deml yn rhyngwladol gan helpu i greu agenda dramor ar gyfer y Cynulliad.

Nid yw gwaith y Deml Heddwch wedi ei gyfyngu i ddarparu adnoddau ar gyfer oedolion Cymru yn unig, a thros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Deml wedi canolbwyntio ar weithgarwch i ysgolion drwy'r Gymraeg. Ryw fis cyn y Nadolig roedd y Deml wedi trefnu cynhadledd ar hawliau dynol i bobl ifainc, a'r llynedd roedd trefniadau dathlu hanner canmlwyddiant UNICEF wedi eu trefnu gan y Deml. Yn fwy eang ac yn ddwyieithog mae'r Deml wedi cynnal cyfarfodydd model y Cenhedloedd Unedig lle mae disgyblion wedi bod yn chwarae rôl gwleidyddion a thrafod problemau rhyngwladol.

Mae'r Deml hefyd yn un o'r mudiadau sydd yn trefnu'r Senedd Ieuenctid a fydd yn cyfarfod cyn y Cynulliad. Pwrpas y senedd fydd dod i wybod am syniadau'r ifanc, a gweld a yw'r ifainc yn adlewyrchu canlyniad mis Medi diwethaf. Fe fydd y Senedd Ieuenctid hefyd yn fodd i annog pobl ifainc i gymeryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Y gobaith yw y bydd y Senedd yn gallu defnyddio siambr y Cynulliad i'w gynnal. Er mwyn cael y fraint o eistedd yn y Senedd Ieuenctid fe fydd cystadleuaeth traethawd yn cael ei chynnal ac fe fydd y goreuon yn cael eu gwahodd i fynychu'r Senedd Ieuenctid. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y datblygiad hwn.

## Ysgol y Wern

Mae datblygiadau diddorol ar y gweill ar gyfer mis Medi 1998 gan fod y sir yn bwriadu agor Uned Feithrin ar gampws yr ysgol. Pob hwyl i dîm Diogelwch y Ffyrdd Blwyddyn 6 a fydd yn cystadlu yn y rowndiau terfynol yn Neuadd y Sir cyn bo hir.

Dyma rai dyddiadau pwysig i'w rhoi yn eich dyddiadur ar gyfer tymor yr haf.

| | |
|---|---|
| 17 Mehefin | - Mabolgampau'r ysgol am 1.00 p.m. |
| 1 Gorffennaf | - Cyngerdd yr Ensemble am 4.00 p.m. |
| 8 - 10 Gorffennaf | - Cyngerdd Olifer am 1.00 p.m. |
| 11 Gorffennaf | - Barbaciw'r ysgol |

At y Golygydd:

Syr, - Fel awdur y gyfrol *Termau Cyfraith/Legal Terms* [1972], ac wedi hynny *Geiriadur y Gyfraith/The Legal Dictionary* (Saesneg-Cymraeg) [1992], ac yna Atodlyfr [1996] i hwnnw, y mae'n dda medru dweud bod *Geiriadur* 1992 bellach allan o brint.

Gan hynny gofynnwyd i mi gan y Cyhoeddwyr (Gwasg Gomer) a fyddai modd i mi gychwyn ar y gwaith o baratoi Ailargraffiad newydd sbon danlli o'r *Geiriadur*, gan ymgorffori yr hyn a fu yn yr Atodiad, ynghyd â deunydd newydd a chyfoes. Y tro o'r blaen sgrifennais lythyr i'r wasg gyhoeddus (gyfreithiol a lleyg) i sôn am fy mwriad, gan ofyn i'r darllenwyr anfon ataf unrhyw ddefnydd a fyddai, yn eu barn hwy, o fudd mewn cyfrol o'r fath. Siomwyd fi o'r ochr orau gan yr ymateb ffafriol.

Dyma fi'n awr yn manteisio ar eich colofn lythyrau unwaith yn rhagor i ofyn i unrhyw un neu unrhyw rai o blith eich darllenwyr sy'n teimlo y medr gyflenwi gwybodaeth yn y mater hwn i ohebu â mi.

Diolch yn fawr i bawb sy'n ymddiddori yn hyn o beth ac mewn pwnc mor esoterig â'r gyfraith a'r Gymraeg.

ROBYN LÉWIS
"Dwyryd", Rhodfa'r Môr,
NEFYN, ger Pwllheli, Gwynedd LL53 6EB

## The Queen of Hearts

Perfformiwyd y ddrama newydd, The Queen of Hearts, yn seiliedig ar fywyd y Dywysoges Diana, yn Theatr y Sherman yn ddiweddar. Fe'i sgrifennwyd gan Christine Watkins sy'n byw yn ne Henffordd ar hyn o bryd. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Stanwell cyn mynd i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth. Dysgodd Gymraeg yn yr ysgol a bu'n mynychu cyrsiau dysgu'r Gymraeg gyda'r Urdd yn Llangrannog a Glan-llyn.

## Caerdydd yn disgleirio yng ngwobrau BAFTA

Yn seremoni ddyfarniadau BAFTA yn ddiweddar aeth y tlws am yr actor gorau i Mathew Rhys, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf, am ei ran yn *Bydd yn Wrol* (John Owen). Aeth y dyfarniad am yr awdur gorau i Siwan Jones, wyres Saunders Lewis, am ei drama gyfres *Y Tair Chwaer*. Mae ganddi gysylltiadau agos â Chaerdydd. Y ddrama Saesneg orau oedd *House of America* (Ed Thomas, Ystradgynlais gynt) a gyfarwyddwyd gan Marc Evans o Riwbina. Dyfarnwyd pedair gwobr i gyd i'r ffilm hon.

## Siôn yn ddirprwy faer

Siôn Jobbins, gynt o'r Eglwys Newydd, yw dirprwy faer newydd Aberystwyth. Swyddog Cyhoeddusrwydd i ŵyl ryngwladol Ffilmiau Cymru yw Siôn. Llongyfarchion cynnes iddo. Gyda'r datblygiadau diweddar ym myd Ffilm Cymru, efallai y gwelwn Siôn yn ôl yn y ddinas yn y man, am fod Ffilm Cymru'n gadael Aberystwyth am y brifddinas.

## Cyngerdd i Anrhydeddu

Ychydig yn ôl bu cyngerdd ym mro enedigol Caryl Parry-Jones i ddathlu ei chyfraniad clodwiw i fyd adloniant yng Nghymru dros nifer o flynyddoedd. Y rhai a ymddangosodd gyda hi yn y cyngerdd oedd Hogiau'r Wyddfa, Tara Bethan a Chôr Bro Gwerfyl. Dechreuodd Caryl ar ei gyrfa mewn grŵp o'r enw Sidan a hithau'n ddisgybl yn Ysgol Glan-clwyd. Bu wedyn gyda grwpiau Inja Roc, Bando a Caryl a'i Band. Mae'n byw gyda'i gŵr Myfyr a'u plant ger y Bont-faen. Pob dymuniad da i Caryl yn y dyfodol.

## Ail ddarganfod Trysor Pensaernïol yng Nghaerdydd

Mae adeilad y Mews - hen ystablau Castell Caerdydd - yn un o gampweithiau'r pensaer William Burgess. Adeiladwyd y Mews ym 1874 i wasanaethu'r castell, ac erbyn hyn mae'r gwaith o'i adnewyddu wedi cychwyn er mwyn creu cyfleusterau dysgu a pherfformio o'r radd flaenaf i Goleg Cerdd a Drama Cymru.

Cyflogwyd William Burgess yn wreiddiol gan y Trydydd Arglwydd Bute, i adnewyddu Castell Caerdydd a'i amgylchfyd yn yr 1860au hwyr. Heddiw cydnabyddir Burgess yn un o brif benseiri ei oes, yn enwedig am newydd-deb ei arddull Fictoraidd-Gothig, ac ail fodelu Castell Caerdydd oedd y comisiwn a goronodd ei yrfa.

Roedd adeilad y Mews yn rhan o'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer y castell. Lleolwyd yr adeilad tua 250 metr i ogledd y castell, ar ben rhodfa goediog. Fe'i dyluniwyd ym 1868 ac fe'i cwblhawyd mewn dwy ran - yr adain ogleddol a dwyreiniol ym 1874-75 a'r adain ddeheuol a gorllewinol yn y 1920au hwyr.

Pan fydd y gwaith o adnewyddu'r adeilad wedi'i gwblhau, bydd yn cynnig i fyfyrwyr gyfleusterau sydd gyda'r gorau o blith unrhyw goleg cerdd a drama ym Mhrydain heddiw. Bydd yr ystablau presennol yn cael eu troi'n dair neuadd berfformio, gan gynnig amgylchfyd sensitif, artistig a diwylliannol er budd myfyrwyr a'r cyhoedd fel ei gilydd. Bydd sgwâr mewnol y Mews yn cael ei atgyweirio, gan ddarparu canolfan perfformio awyr-agored arall i ganol y brifddinas.



Llun artist o'r Mews ar ei newydd wedd

## GWEITHREDU CAERDYDD

Mae Gweithredu Caerdydd/Action Cardiff yn un o bedwar cynllun peilot sy'n cael ei redeg gan CSV (Community Service Volunteers). Bwriad y cynllun yw dangos sut y gallai gwasanaeth dinasyddol gwirfoddol gael ei redeg yn y dyfodol. Rheswm arall yw dangos sut y gall egni a thalentau pobl ifainc gryfhau gwasanaethau lleol a bod o fudd cyffredinol i'r gymuned.

Er mwyn gweithio yn wirfoddol gyda Gweithredu Caerdydd, rhaid i chi fod rhwng 18 a 25 oed, yn byw yng Nghaerdydd ac ar gael am o leiaf 15 awr yr wythnos. Bydd Gweithredu Caerdydd yn dod o hyd i brosiect i bawb sy'n gwneud cais i wirfoddoli - does neb yn cael eu gwrthod.

Mae prosiectau Gweithredu Caerdydd yn amrywiol. Gall gwirfoddolydd fod yn helpu pobl hŷn wedi eu hynysu, rhoi cymorth mewn clwb ar ôl ysgol neu feithrinfa, helpu disgyblion gyda'u darllen a'u rhifyddeg mewn dosbarthiadau.

Prosiect arall sydd ar gael i wirfoddolwyr Gweithredu Caerdydd yw prosiect 'Gallaf' (*I Can*) yng Nghanolfan Huggard CASH. Mae'r ganolfan yn cynnig cefnogaeth i bobl ddigartref mewn amryw o ffyrdd ac yn y ganolfan mae canolfan ddydd ag uned wely argyfwng.

Gwirfoddolwraig sy'n gweithio yno ar hyn o bryd yw **Non Morgan** o Gaerdydd. Dywedodd Non ei bod yn mwynhau'r profiad o wirfoddoli'n fawr. "Penderfynais adael fy nghwrs coleg mewn twristiaeth, gan fy mod wedi sylweddoli fod fy ngwir ddiddordeb mewn bod yn weithwraig gymdeithasol. Rwy'n gobeithio dechrau diploma mewn gwaith cymdeithasol fis Medi. Mae gwirfoddoli wedi rhoi agoriad llygad i mi, a phrofiad fydd yn fy mharatoi at waith cymdeithasol."

Rhai o'r pethau mae Non yn eu gwneud yw sgwrsio â phobl yn y ganolfan a darganfod beth yw eu diddordebau a pha sgiliau sydd ganddynt. Yna, mae'n mynd ati i ddod o hyd i gyrsiau perthnasol iddynt a'u cynorthwyo i wneud cais am y cyrsiau hyn. Mae Non hefyd yn brysur yn paratoi gwersi Cymraeg, yn ogystal â helpu gyda gwersi Ffrangeg.

Ganol mis Ionawr, dechreuodd **Elizabeth Jones** wirfoddoli ar brosiect newydd yn Ysgol Pen-cae, Llandaf. Mae Elizabeth yn gobeithio mynd i wneud ymarfer dysgu fis Medi nesaf ac roedd yn awyddus i gael profiad o weithio mewn ysgol gynradd cyn dechrau ar y cwrs.

Yn ddiweddar mae dau wirfoddolydd newydd wedi ymuno ag Elizabeth yn Ysgol Pen-cae. Bydd Elizabeth, Delyth a Mike yn helpu'r disgyblion gyda'u darllen, ysgrifennu a gweithgareddau eraill yn y dosbarth.

Gwirfoddolydd arall yw **Thomas Crockett**. Roedd am weithio gydag elusen a defnyddio'i Gymraeg ar yr un pryd. Dechreuodd wirfoddoli gyda Track 2000 fis Ionawr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn wirfoddolydd gyda Gweithredu Caerdydd neu am wybod mwy am y mathau eraill gwirfoddol mae CSV'n drefnu, rhowch ffôn i:

Branwen Miles, Cyfarwyddwraig Gwirfoddoli Drwy Gyfrwng y Gymraeg (01222 666737), neu anfonwch nodyn i Gweithredu Caerdydd CSV, 4ydd Llawr, Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd.

## CYNGERDD MAWREDDOG

**Neuadd Dewi Sant Caerdydd**
**Nos Sadwrn, 7 Tachwedd 1998**

Bydd perfformiad o'r oratorio **ELIAS** gan Mendelssohn yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg gan gôr unedig o ddisgyblion, rhieni ac athrawon Ysgol Glantaf o dan arweiniad **Alun Guy.** Hefyd bydd Corau Philharmonic Caerdydd a Chasnewydd yn ymuno yn y dathlu.

Yn cyfeilio bydd cerddorfa o ddisgyblion, athrawon, rhieni a chynddisgyblion yr ysgol gyda **Richard Elfyn Jones** wrth yr organ.

Mae un o sêr y byd opera, **Anthony Stuart Lloyd,** yn hedfan yn ôl o'r Almaen i ganu rhan y proffwyd Elias. Hefyd bydd y soprano enwog **Miriam Bowen**, un o rieni Glantaf, yn canu'r rhan soprano. Un o gyn-aelodau corws Covent Garden fydd yn canu'r rhan contralto, **Siân Meinir Owen** o Ddolgellau.

Os hoffech fod yn aelod o'r côr unedig hwn o 300 o leisiau, yna bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal yn Neuadd y Brifysgol, Heol Corbett, **bob nos Fercher** am 7.30 o'r gloch.

Ni fydd yn rhaid i neb boeni am y copïau Cymraeg, oherwydd bydd copi o'r cytganau ar gael yn yr ymarferion.

**Dywed Alun Guy fod croeso i gantorion Caerdydd a'r Fro ymuno i ddathlu 20 mlynedd o addysg Gymraeg yn ein prifddinas.**

Dyma gyngerdd ffarwel Alun Guy sy'n ymddeol o'i swydd fel pennaeth yr Adran Gerdd ar ôl ugain mlynedd yr haf yma.

## *Ffilmiau Cymreig* gan Philip Wyn Jones

(Hwylio Mlaen 9, Y Lolfa £3.95)

Cyfrol ddiweddaraf y gyfres Hwylio Mlaen yw *Ffilmiau Cymreig* gan Philip Wyn Jones, sy'n byw yn Ystum Taf. Mae'r gyfrol hon wedi ei rhannu i ddwy ran, sef ffilmiau Saesneg am Gymru rhwng 1935 a 1953, a ffilmiau Cymraeg adnabyddus a gynhyrchwyd ers sefydlu S4C.

Mae'r awdur yn amlwg yn wybodus iawn am y byd ffilmiau ac wedi dadansoddi nifer o agweddau am y ffilmiau unigol, gan gynnwys cyfarwyddo, actio, sgriptio a ffotograffiaeth. Mae ei ddadansoddiad yn aml iawn yn feirniadol, ac yn gosod y ffilm yng nghyd-destun y byd ffilmiau Seisnig.

## Ffilmiau'r Bont

Mae Ffilmiau'r Bont wrthi ar hyn o bryd yn cynhyrchu cyfres, CYMRU 2000, am hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif ar gyfer S4C. Bydd y gyfres yn cael ei chyflwyno gan yr Athro Merfyn Jones, ac yn archwilio pob cornel daearyddol o'r wlad. Mi fydd yn ystyried pob agwedd o fywyd yng Nghymru, o'r economi i chwaraeon, o byllau glo, i dripiau glan môr.

Rydym wrthi'n chwilio am ddeunydd archif, ac yn awyddus i gael gweld unrhyw hen ffilmiau amatur sydd â chysylltiad Cymreig. Mae'n siŵr bod yna ddeunydd hynod o ddiddorol yn llechu mewn ambell atig sy'n cofnodi achlysuron cymdeithasol, golygfeydd gwledig a threfol, neu efallai ffordd o fyw sydd nawr wedi diflannu.

Os gall rywun helpu, gofynnir iddynt gysylltu â Branwen Davies yn Ffilmiau'r Bont, Y Ganolfan Deledu, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD, neu ffonio 01286 677285.

## Cystadleuaeth yr Academi Gymreig

Llongyfarchiadau gwresog i Siân Stephen, Ysgol Glantaf ar ennill Cystadleuaeth Farddoniaeth yr Academi Gymreig. Cyhoeddir y gerdd mewn llyfryn o waith y buddugwyr.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies





## DIWEDD ADDAS I DYMOR RYGBI



Ie, diwedd addas a gawsom ni i dymor gwaethaf erioed y genedl - ac ym Mhryste o bob man. Ychydig iawn, iawn o rygbi da a welwyd yn ystod pedwar ugain munud yn Rownd Olaf y Cwpan, a dyna paham y dywedaf mai addas oedd gornest olaf y tymor - yr oedd safon y chwarae cyn ised â'r gornestau rhyngwladol. Pan oedd hi'n gyfartal - 12 pwynt yr un - yn agos at y diwedd yr oeddwn i'n ofni'n fawr iawn y byddai'n rhaid imi wylio ugain munud o amser ychwanegol, ac yr oeddwn yn hynod o ddiolchgar i Martyn Madden, prop pen tywyll Llanelli, am redeg mor gyffrous a sgorio unig gais yr ornest.

Wrth ddychwelyd yn y car â thri chyfaill deallus a thra gwybodus, y penderfyniad oedd na welwyd gwaeth Rownd Derfynol erioed - a thynnwyd y llen ar dymor na welir ei debyg gobeithio - byth eto.

## CRICED



Er fy mod yn ysgrifennu drannoeth yr ornest yn Northampton pan sgoriwyd 712 yn yr ail fatiad yn erbyn Morgannwg, dechrau addawol a gafwyd yn Nhymor y Bencampwriaeth - dechrau a wnaeth i ddyn feddwl y gellid ei hennill am yr ail dymor yn olynol. Mae cydbwysedd da yn y garfan gyda'r ddau fatiwr ifanc, Michael Powell o Grucywel ac Alun Evans o'r Garnant, yn cadarnhau eu haddewid â'r bat.

Sgoriodd y cyntaf 106 ym matiad cyntaf y Sir yn Northampton, a'r olaf 125 yng Nghaergrawnt yn erbyn y Brifysgol, ac yr oedd Cadeirydd Criced y Sir, Hugh Davies, yn uchel ei farn am y ddau, Powell yn enwedig. Y mae ef yn ymosodol ac mae ganddo dechneg ac agwedd dda iawn - fe oedd Chwaraewr Gorau'r Tymor yng ngornestau Ail Dimau'r Siroedd y llynedd sy'n brawf ddiamheuol o'i allu. Mae angen sgôr da'n fuan ar Alun Evans yng ngornestau pedwar diwrnod, meddai'r Cadeirydd, ac yna bydd gan Forgannwg ddau fatiwr ifanc eithriadol o alluog. Methodd Matthew Maynard â chwarae ar y llain honno yn Northampton oherwydd anaf yn ei werddyr, ond y mae ef yn gapten da iawn yn ogystal â bod yn fatiwr gwefreiddiol pan fydd yn ei gymal - chwaraewr â gweledigaeth, yn ôl ei Gadeirydd. Da oedd gweld Anthony Cotty yn cael hwyl arni wedi ei dymor siomedig y llynedd, ac efe a arweiniai'r tîm yn absenoldeb Maynard. Mae ei Gymraeg yn dda hefyd, cofier.

Er na chafwyd fawr o lwyddiant yn y gornestau undydd hyd ddiwedd Mai, disgleiriai Robert Croft wrth agor y batio gan sgorio dros 50 bum gwaith yn ei chwe batiad. Ac mae'n droellwr rhagorol ar ben hynny; am ryw reswm ni allai Lloegr weld gallu batio hwn gan iddo gael ei hun yn isel yn y drefn yn y gyfres yn erbyn De Affrica. Trueni bod yn rhaid inni ei golli i gynrychioli'r wlad arall.


Er nad yw'n ein hysgolion yn hyfforddi'r bechgyn fel y dylent, mae'r Sir yn ceisio sicrhau na fydd yr un bachgen yn peidio â chael ei gyfle i'w hyfforddi rywle neu'i gilydd. Peter Walker sy'n bennaf gyfrifol trwy Fwrdd Criced Cymru fod hyfforddwyr ym mhob rhanbarth, ac mae James Williams o Gastell-nedd yn hyfforddwr y timau cenedlaethol o dan 17 oed a 19 oed. Bydd yr Ysgol Dan Do yn agor fis Mai, 1999, yng Ngerddi Soffia, Caerdydd, yn rhan o Ganolfan Criced y wlad; mae hi'n hynod o bwysig wrth reswm fod y sir yn cael llwyddiant ymhob math o gystadleuaeth eleni er mwyn sicrhau y denir ein hieuenctid at y gamp yn eu lluoedd. Mae gwir angen camp genedlaethol i lenwi'r bwlch anferth sydd ar gael wedi i'r rygbi lithro i'r gwyll - i'w hir gartref, a dweud y gwir.

Erbyn imi ysgrifennu am griced nesaf, mi fydd llawer o ornestau wedi eu chwarae ac mawr obeithio y bydd Morgannwg yn uwch o gryn dipyn nag yr oeddynt ar ôl pum gornest undydd yng Nghynghrair AXA - colli pedair a chael dau bwynt o'r ornest gyntaf ym Mryste pan na fu chwarae o gwbl. Bydd trefn newydd y tymor nesaf, bydd yn rhaid gorffen yn yr wyth uchaf ym Mhencampwriaeth y Siroedd er mwyn chwarae yng nghystadleuaeth undydd y Goruwch Gynghrair a gymer le cystadleuaeth Benson a Hedges. Un yn unig o'r newidiadau yw hwn ond ni ddymunaf eich drysu drwy sôn am y lleill; i mi, beth bynnag, ennill Pencampwriaeth Gornestau Pedwar Diwrnod yw'r brif gamp - dyna yw criced, nid bwrw-a-rhedeg - a'r cwrw - a geir yng ngornestau un prynhawn.




'wedi i'r rygbi lithro i'r gwyll - i'w hir gartref...'

Tynnwyd y llen ar y rygbi uchod ond rhaid ei hagor ryw ychydig eto. Rhyfedd, onide, na ellir peidio â sôn am y gêm wedi'r cwbl; brynhawn Sadwrn, 27 Mehefin, ym Mhretoria, bydd Cymru'n chwarae'r pumed ornest i ddiweddu ei hymweliad â De Affrica. Achlysur arall na ellir edrych ymlaen ato ag unrhyw obaith.



### Diwrnod Corfforaethol

Cofiwch am Ddiwrnod Golff Corfforaethol *Y Dinesydd* a gynhelir ddydd Iau, 2 Gorffennaf. Cynhelir y gystadleuaeth ar gwrs Yr Eglwys Newydd ac os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ceri Preece, d/o Hugh James (ffôn: 224871; ffacs: 388222).

Cost tîm o bedwar fydd £180 a chost unigolyn fydd £45. Bydd hyn yn cynnwys ffi'r lawnt, bwyd a gwobrwyon safonol. Dim ond lle i 30 tîm fydd, felly gorau po gynta y gwnewch yn siwr o'ch lle.

Bydd yr holl elw yn mynd tuag at *Y Dinesydd*, sydd eleni yn dathlu 25 mlynedd ei sefydlu.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Bydd mis Mehefin yn adeg brysur i bobl sy'n dysgu Cymraeg ac sydd eisiau cymdeithasu yn y Gymraeg. Cofiwch pa mor bwysig yw ymarfer a dewch i'r digwyddiadau yma ac wrth gwrs gobeithio byddwch yn mwynhau eich hunain hefyd!

## CWIS CYD

Cynhaliwyd rownd gyntaf Cwis Cenedlaethol CYD yng Nghlwb Ifor Bach ar nos Wener 5 Mehefin, am 7.00pm. Richard Lewis oedd y cwisfeistr. Bydd y tîm buddugol yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn rownd derfynol y cwis ddydd Mercher, 5 Awst ym Mhabell y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Ogwr. Yn yr Eisteddfod ei hun bydd y tîm cyntaf yn ennill £150, yr ail dîm yn ennill £100, £75 i'r trydydd tîm, £50 i'r pedwerydd tîm a £25 i'r 5ed tîm.

## TAITH GERDDED

Prynhawn dydd Sadwrn 27 Mehefin, bydd pobl yn cerdded o gwmpas caeau'r Castell yng Nghaerdydd (ymgynnull y tu allan i'r Castell am 5.30pm ) er mwyn codi arian i fudiadau Cymraeg. Wedyn bydd parti yng Nghlwb Ifor Bach (tua 7pm ymlaen) i ddathlu diwedd y tymor a chael peint neu ddau i dorri'ch syched ar ôl yr holl gerdded! Mae'r daith gerdded yn cael ei threfnu gan CYD a Menter Iaith Caerdydd a bydd mwy o fanylion, yn ogystal â ffurflenni noddi ar gael o'ch tiwtoriaid neu drwy ffonio Gareth Kiff (CYD) 01222 486469 neu Richard Lewis ( Cadeirydd Menter Iaith Caerdydd ) ar 01222 874710.

## CYFRES Y CYMRY ENWOG

Bob mis byddwn yn edrych ar fywyd rhyw Gymro neu Gymraes enwog. Mae llawer o enwogion o Gymru, efallai bod mwy ohonyn nhw na dych chi'n feddwl. Y mis yma edrychwn ni ar yr actor Hywel Bennett.

Cafodd Hywel Bennett ei eni yng Ngharnant, Cwm Aman , a chafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Henry Thornton, Llundain a RADA. Yn 1985, ymunodd â'r Theatr Genedlaethol i chwarae Marlow yn *She Stoops to Conquer* ac yn 1987 chwaraeodd ran Andrei yn *The Three Sisters* yn yr Albery Theatre. Mae e wedi chwarae sawl rôl mewn dramâu o Prince Hal yn *Henry I* (rhannau 1 & 2 ) i Toad yn *Toad of Toad Hall*.

Mae hefyd wedi cyfarwyddo cynyrchiadau i Theatr y Sherman yng Nghaerdydd, y Birmingham Rep a'r Crucible Theatre yn Sheffield.

Bu Hywel yn seren mewn nifer o ffilmiau gan gynnwys *The Family Way, Alice in Wonderland, The Twilight Zone* a *The Virgin Soldiers*. Mae e'n perfformio yn aml mewn dramâu ar y radio ac fel llais mewn hysbysebion ar y teledu. Mae wedi ymddangos mewn sawl drama deledu ond mae'n debyg mai'r rôl oedd wedi'i wneud yn enwog oedd y cymeriad Shelley yn y rhaglen gomedi o'r un enw.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob Nos Lun** 9.00pm ymlaen | Tafarn y Pen a Wig, Park Grove, Caerdydd. Ffoniwch Rhobat Bryn Jones 01222 874710. |
| **Pob yn ail ddydd Mawrth** 12.30 - 2.00pm | Clwb Coffi y Fro, Coleg Cymunedol y Bont-faen. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Fercher** 9.00pm ymlaen | Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford, Y Rhath, Caerdydd. Ffoniwch Gareth Kiff 01222 486469. |
| **Pob nos Iau** 9.00pm ymlaen | Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*), Heol y Plwca (*City Road*), Caerdydd. |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |

Am ragor o fanylion am gyrsiau Cymraeg cysylltwch â Nigel Ruddock, Tiwtor Drefnydd Dysgu Cymraeg i Oedolion, Coleg Glan Hafren ar 01222 250439.

Os hoffech chi hysbysebu unrhyw ddigwyddiadau ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg cysylltwch â Gareth Kiff ar 01222 486469.

## Athrawes yn Ariannin

Pob lwc i Angharad Rogers, merch Moc ac Eleri Rogers, Croes Cwrlwys fydd yn dechrau ar ei gwaith yn athrawes Gymraeg yn Nyffryn Camwy, Patagonia, y mis hwn. Bydd yno am flwyddyn ac yn addysgu yn Gaiman, Dolafon a Bryngwyn. Caiff gwmni Catrin Morris, Meisgyn sy'n wyres i Ambrose Bebb. Bydd hi'n dysgu yn Nhrelew, Rawson a Phorth Madryn. Maen nhw'n dilyn y gwaith clodwiw a wnaeth Gwilym Roberts, Rhiwbina, yn Ariannin.

## Y Banc sy'n Gwrando'n Gymraeg?

Yn ddiweddar mewn cyfarfod yng Ngwesty'r Parc, Caerdydd, lansiwyd dogfen gan Fanc y Midland yng Nghymru yn rhestru'r manylion am y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Anerchwyd y cyfarfod gan Elfed Roberts, Rheolwr Cyffredinol y Banc yng Nghymru. Banc y Midland yw'r banc cyntaf yn y sector breifat i gyflwyno polisi dwyieithog yn amlinellu cefnogaeth i'r Gymraeg.

Mae'r ddogfen yn manylu ar ymrwymiad Midland i ddarparu gwasanaethau ariannol ledled Cymru gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis iaith y cwsmer.

Cafodd y project, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith, ei lansio gan Elfed Roberts, Rheolwr Cyffredinol, Banc Midland yng Nghymru mewn brecwast yng Ngwesty'r Parc yng Nghaerdydd ddydd Mawrth, 31 Mawrth. Ymunodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas ag ef, sef Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag Arfon Haines-Davies, un o gyflwynwyr adnabyddus byd teledu.

Amgueddfa
Werin
Cymru

1948-1998
50

Sain Ffagan
Caerdydd
CF5 6XB

**GŴYL IFAN**

Penwythnos o ddawns a chân

**Sadwrn, Mehefin 20fed, 1998**

Dros 12 awr o ddawnsio a cherddoriaeth werin

**CYNGERDD**

rhwng 6 a 12.30 yr hwyr
gyda Hogiau'r Wyddfa, Cejuns Denbo,
Yr Hennessys a Boys of the Lough

Tocynnau: £12 (oedolion), £11 (gost.); £8 (plant), £7.50 (gost.)

**BAR A BWYD AR GAEL**

**Sul, Mehefin 21ain, 1998 am 3.00 p.m.**

**CYMANFA GANU**

i'w ddarlledu ar S4C

Mynediad trwy raglen: £1.50

**Tocynnau a manylion pellach**
**01222 - 573466**

**J. A. HUGHES**
**gyda**
**REES WOOD**
**a TERRY**

A ydych chi wedi cael
**damwain?**

Efallai y gallwch hawlio
**iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf
**yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

## Rhagor o helyntion SS Hiraeth ac Alan Greedy

Tua dechrau Awst aeth si drwy'r Caribî fod Corwynt David yn debygol o daro Grenada. Roedd yna loches yn Egmont tuag wyth milltir i'r gogledd, ond roedd hi'n nosi a byddai'n amhosibl gweld ein ffordd ar hyd sianel greigiog yn y tywyllwch. Felly, doedd dim amdani ond ceisio paratoi orau y medrem ni, er yn gwyddem y byddai'r cyfan yn ddim mwy na phren matsys erbyn bore trannoeth. Erbyn tua phedwar o'r gloch y bore, roedd pob cadwyn a rhaff yn dynn fel tympan, ond tua phump o'r gloch dyma neges ar y radio fod Corwynt David wedi troi ychydig i'r gogledd ac y byddem yn lled ddiogel.

O Grenada euthum i rai o'r Ynysoedd Gwynt eraill, fel Carriacou, St Vincent, Antigua ac yn y blaen, ond pe bai'n rhaid i mi ddewis fy hoff ynys, dewiswn Ynysoedd y Seintiau gyda'u pobl felynwallt a'u llygaid glas. Llydawyr oedd cyndeidiau'r bobl hyn, ac wrth eu gwylio'n gweithio ar eu rhwydi gleision a'u bwiau oren, gallech yn hawdd feddwl eich bod yn Fete des Filets Bleu Concarneau. Gêm arall oedd Bequia ger St Vincent.

Yno aethpwyd â fi ar gefn asyn i ben bryn i weld olion y seren gynffon enwog, Halley's Comet. Euthum i drybini gyda'r pysgotwyr yno wrth geisio tynnu eu llun wrth eu gwaith. Bydd pobl mewn sawl rhan o'r byd yn credu bod pobl y Gorllewin yn chwerthin am eu pennau wrth dynnu llun, ac mae camera yn sicr o godi gwrychyn.

Mae English Harbour yn Antigua yn amgueddfa o ddwy ganrif o hanes y Llynges Brydeinig yn y Caribî. Treuliais oriau lawer yn eistedd ar deras y Llyngesydd yn mwynhau diferyn o rym daiquiri lle buasai Nelson yn eistedd ddwy ganrif ynghynt gyda'i ddarpar wraig, Fannie Nesbit.

Ond roedd Horatio wedi creu penbleth anodd. Yn fuan ar ôl cyrraedd English Harbour sylweddolais fy mod wedi gollwng angor *Hiraeth* ar ben cadwyn enfawr a oedd wedi ei gosod gan Nelson ym 1785! Roedd fy angor i wedi gweithio'i ffordd o dan y gadwyn, a bu'n rhaid i mi blymio i'r dwfn gyda rhyw fath o bôl fechan lawer gwaith bob dydd i ryddhau'r angor. Llwyddais ymhen tair wythnos, ond oherwydd bod o dan y dŵr mor hir heb yr offer iawn, cefais broblem yn fy nghoes.

Ond ar ôl archwiliad ECG a thriniaeth gan feddyg o Gaerfyrddin, roeddwn yn ffit i hwylio i Ynys Margarita yn Venezuela, a chyfres o anturiaethau eraill ymhlith pobl De America cyn troi'n ôl tua'r gorllewin eto i Panama a môr mawr arall. Ond stori arall yw honno!

EISTEDDFOD GADEIRIOL
AMGUEDDFA WERIN CYMRU

## SAIN FFAGAN

**Dydd Sadwrn 20 Tachwedd 1999**

**TESTUNAU LLENYDDOL**
Beirniad: Islwyn Jones

1. Cerdd y Gadair: Cyfres o Benillion Telyn: 'Cymry Enwog yr Ugeinfed Ganrif'
   *Gwobr*: Cadair fechan o waith un o grefftwyr yr Amgueddfa Werin
2. Soned: Y Dr Gwynfor Evans
3. Cywydd neu Gerdd yn y mesur rhydd: Cais am Swydd yn Amgueddfa Werin Cymru
4. Englyn: Yr Athro Hywel Teifi Edwards (Llywydd yr Eisteddfod)
5. Deg Dihareb o waith y cystadleuydd
6. Pennill Beddargraff doniol: Agored
7. Limrig: Yn ystod y mileniwm nesa(f)
   Fe welwn y pethau rhyfedda(f) ...
8. Brawddeg neu Frawddegau a phob gair yn dechrau ag un neu ragor o'r llythrennau A C CH E G neu I
9. Brawddeg o'r llythrennau yn yr enw SAIN FFAGAN
10. Casgliad o Gerddi yn ymwneud ag unrhyw ardal neu ardaloedd yng Nghymru. (E.e., cerddi troeon trwstan, cerddi gofyn a diolch, digwyddiadau, dathliadau, cyfarchion priodasol a cherddi coffa. Pan fo hynny'n bosibl, dylid egluro cefndir y cerddi a nodi enw'r awdur.)
    *Gwobr*: £75.00 (rhoddedig gan Amgueddfa Werin Cymru, o Gronfa Goffa Elizabeth Reynolds (1907-86), Brynhoffnant, Ceredigion).

Y Cyfansoddiadau i'w hanfon at yr Ysgrifennydd cyn **1 Tachwedd**:
Meinwen Ruddock, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6XB. Ffôn: 01222 573427 neu 573500

Mewn amlen o dan sêl dylid cynnwys: teitl y gystadleuaeth, ffugenw, enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn. Ar wyneb yr amlen, noder: teitl y gystadleuaeth a'r ffugenw.



# YSGOL GYMRAEG COLEG NEWYDD

## I DDECHRAU MEDI 1999

7 - 11 oed (dosbarthiadau bach)

**£1,050 y tymor**

**Ysgol Gymraeg Annibynnol gyntaf Caerdydd**

**Ar agor 8am - 5pm**
**Addysg sy'n gweddu i'ch plentyn a'ch amserlen**

*Am fanylion pellach, cysylltwch â:*

**Mrs. Gwyn Evans**
Ysgol Gymraeg Coleg Newydd
Bute Terrace
Caerdydd. CF1 2TE
Ffôn: 01222 - 463355
Ffacs: 01222 - 489616
admin@new-coll-cf.ac.uk



**SWYDDFA'R POST**

**THE POST OFFICE**

# CANOLFAN IAITH GYMRAEG SWYDDFA'R POST

Os hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg i gael manylion am y gwasanaethau sydd ar gael ac i wneud ymholiadau:

ffoniwch

# 0345 468 469

SWYDDFA'R POST
Post Brenhinol
Royal Mail
PARCEL-FORCE WORLDWIDE



# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222